

A: Ynglŷn â phrosiect PCT

1. Ynglŷn â'r prosiect

Mae prosiect 'Propensity to Cycle' (PCT) wedi cael ei ariannu gan Adran Drafnidiaeth Lloegr (DfT), ac mae Llywodraeth Cymru yn ariannu estyniad i Gymru. Fe'i datblygwyd gan dîm academiaidd oedd yn gysylltiedig â phrifysgolion Caergrawnt, Leeds a Westminster. Mae'r PCT yn helpu i ddarparu cronfa dystiolaeth ar gyfer cynllunio ar gyfer seiclo. Gallwch ei ddefnyddio i archwilio potensial seiclo ar wahanol raddfeydd daearyddol - o sir i goridor llwybr posibl. Mae'r PCT yn offeryn ar-lein y gellir ei ddefnyddio am ddim gan unrhyw un sydd â chysylltiad mewnruyd. Gall defnydd uwch, megis paratoi achosion busnes, gynnwys lawrlwytho data o'r PCT, ar ffurf ddaearyddol ac anaearyddol. Mae'r PCT hefyd yn god agored ac, yn unol â thrwyddedu Comin Cyffredinol, mae croeso i ddefnyddwyr (ac fe'u hanogir) i adeiladu ar y cod a chreu eu prosiectau eu hunain.

2. Ynglŷn â'r llawlyfr

Mae'r llawlyfr hwn (f. 1.3) yn cynrychioli'r fersiwn ddiweddaraf o'r deunydd hyfforddi a gynhrychir fel rhan o brosiect PCT. Bwriedir i'r llawlyfr gyflwyno defnyddwyr i'r offeryn a rhoi arweiniad ymarferol ar sut i'w ddefnyddio. I gael manylion mwy technegol, rydym yn awgrymu eich bod yn darllen ein papurau a'n hadroddiadau DfT, neu edrych ar god y prosiect. Ceir dolenni i'r rhain isod.

3. Datblygiadau i'r Dyfodol

Mae'r llawlyfr PCT yn cyfateb i Gam 2 y prosiect hwn a ariennir gan DfT, a ddaeth i ben ym Mawrth 2017; gydag estyniad yn golygu y gellir parhau i gynnal a chadw'r offeryn a gwneud rhai mân welliannau. Gwnaethpwyd y gwelliannau hyn erbyn Medi 2017 ac yn bennaf maent yn cynnwys swyddogaeth lefel 'Lower Layer Super Output Area' (LSOA), gwelliannau i lawrlwythiadau data, a chynnwys llifoedd trawsffiniol (ac eithrio rhwydwaith llwybr MSOA). Hefyd, ychwanegwyd Cymru i'r PCT ym Mawrth 2018.

Roedd fersiwn 1 o'r llawlyfr yn cynnwys yr offeryn fel yr oedd ym Medi 2016. Roedd fersiwn 1.1 yn cynnwys newidiadau mân i adrannau A, B ac C er mwyn adlewyrchu'r gwelliannau newydd, ac mae Fersiwn 1.2 yn cynnwys Cymru. Nid yw Adran D wedi ei ddiweddarau'n sylweddol; fodd bynnag, mae'r dulliau a ddisgrifir ar gyfer defnyddio'r PCT mewn achosion busnes yn gymwys hefyd i'r data lefel LSOA. Mae'r astudiaethau achos hefyd yn blaenori gwelliannau Medi 2017.

4. Deunydd Ychwanegol

Robin Lovelace, Anna Goodman, Rachel Aldred, Nikolai Berkoff, Ali Abbas, James Woodcock, [The Propensity to Cycle Tool: An open source online system for sustainable transport planning](#)

Aldred R, Elliott B, Woodcock J, Goodman A. Cycling Provision Separated From Motor Traffic: a systematic review exploring whether stated preferences vary by gender and age. Transport Reviews 2016. <http://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/01441647.2016.1200156>

Department for Transport. 2016 [National propensity to cycle: first phase development study](#).

Ystorfa PCT Github: <https://github.com/npct>